# Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017-2022

monmouthshire
sir fynwy

Paratowyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Wedi mabwysiadu gan Y Cyngor 10/03/17



# Welsh Language Strategy 2017-2022

monmouthshire
sir fynwy

Prepared under the Welsh Language (Wales) Measure 2011
Adopted by the Council 10/3/2017

# Cynnwys

Rhagair……………………………………………………………………………………………..4

Cyflwyniad a Chyd-testun……………………………….……………………………………..6

Y Safonau'r Iaith Gymraeg.……………………………………………………………………10

Gweledigaeth Sir Fynwy - Sut olwg fydd ar Yr Iaith yn y Sir erbyn 2022…………………..12

Sut allwn ni wneud hyn ………………………………………………………………………14

Targedau………………………………………………………………………………………16

Atodiad 1 - Ystadegau ieithyddol…………………………………………………………**Error! Bookmark not defined.**9

Atodiad 2 - Cynllun gweithredu…………………………………………………………….1

# Contents

Foreword……………………………………………………………………………………………5

Introduction and context………………………………….………………………………8

The Welsh Language Standards…………...……………………………………………………11.

The Monmouthshire Vision - What will the Language look like in the County by 2022.......**Error! Bookmark not defined.**3

How can we do this ………………………………………………………………………………15

Targets……………………………………………………………………………………..**Error! Bookmark not defined.**8

Appendix 1 - Language statistics……………………………………………………...20

Appendix 2 - Action plan …………………………………………………………...........3

# Rheolaeth fersiwn / Version Control

| | |
|---|---|
| **Teitl /Title** | Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2017 – 2022<br>Welsh Language Strategy 2017 - 2022 |
| **Pwrpas / Purpose** | Dogfen cyfreithiol o dan Y Deddf Cydraddoldeb 2010<br>Legal document under the Equality Act 2010 |
| **Perchennog / Owner** | Cyngor Sir Fynwy / Monmouthshire CC |
| **Approved by** | Cyngor / Council |
| **Dyddiad / Date** | 10/03/2017 |
| **Rhif fersiwn / Version Number** | Dau / Two |
| **Statws / Status** | Fersiwn swyddogol / Official version |
| **Amlder adolygiad Review Frequency** | Blynyddol / Annual |
| **Dyddiad adolygiad nesaf / Next review date** | Mawrth / March 2022 |
| **Ymgynghorwyr / Consultees** | WESP, Grŵp Cynhwysol Sir Fynwy / Monmouthshire Inclusion Group, e byst I randdeiliaid / e mail to stakeholders, Timau Rheoli / Management Teams, (Y Hyb / The Hub), Allanol / external (Wefan Y Cyngor / Council website), Datganiad I'r y wasg / press release, Twitter, Facebook. |

# Rhagair

Daw'r strategaeth hon ar adeg bwysig ar gyfer y Gymraeg yn ein sir. Yn 2016 croesawodd Sir Fynwy yr Eisteddfod Genedlaethol gyda dros 140,000 o ymwelwyr, y tro cyntaf mewn dros ganrif pan ddychwelodd i'r faes hyfryd yn Nolydd y Castell Y Fenni. Rydym yn falch tu hwnt o frwdfrydedd y sir, ei phobl a busnesau wrth fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo a choleddu'r ŵyl unigryw hon.

Bum mlynedd ar hugain yn ôl roedd y gyfran a siaradai Gymraeg y sir yn is nag erioed ac nid oedd fawr ddim i awgrymu y byddai'r iaith yn gweld adfywiad yn yr ardal. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd dilynol, bu adfywiad hynod yn yr iaith ac yn y cyfnod hwnnw gwelsom gynnydd bedair gwaith trosodd gyda chyfrifiad 2011 yn dangos bod 8,780 o breswylwyr Sir Fynwy yn rhugl yn y Gymraeg gyda miloedd o eraill â rhyw lefel o allu yn yr iaith.

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym yn 2016 gyda nod glir i gyrff cyhoeddus weithio tuag at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu diwylliant yn ffynnu. Mae gennym hefyd Safonau'r Gymraeg a strategaeth Mwy na Geiriau 2012 sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn llywodraeth leol a'r sector gofal iechyd.

Credwn y gellir defnyddio'r sylfaen deddfwriaethol hwn a brwdfrydedd pobl Sir Fynwy tuag at yr iaith o ran rhoi gwaddol parhaol i'r sir er budd y preswylwyr ac ymwelwyr y presennol a phreswylwyr ac ymwelwyr y dyfodol i'r gornel arbennig hon o Gymru.

Paul Matthews **Prif Weithredwr,**

Cynghorydd Peter Fox, **Arweinydd y Cyngor**

Cynghorydd Sara Jones, **Hyrwyddwr Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**

# Foreword

This strategy comes at an important point for the Welsh language in our county.  In 2016 Monmouthshire hosted the National Eisteddfod with its 140,000 visitors for the first time in over 100 years when it returned to the beautiful setting of Castle Meadows Abergavenny.  The enthusiasm with which the county, its people and businesses seized the opportinty to promote and embrace this unique festival is something that we take huge pride in.

Twenty five years ago the proportion of people speaking Welsh in the country was at an all-time low and there was precious little to indicate that the fortunes of the language would ever revive in the area.   However, in the years following, the language has remarkably revived and in that time we have seen a four-fold increase with the 2011 census showing that 8,780 Monmouthshire residents are fluent Welsh speakers with many thousands of others having some level of language skill.

2016 heralded the introduction of The Well-being of Future Generations Act with a clear goal for public bodies to work towards a Wales of thriving culture and vibrant Welsh language.  We also have new Welsh Language Standards and the “More than Words Strategy 2012” which promote the use of the Welsh Language in local government and the social care sector.

We believe that this new legislative basis and the enthusiasm of the people of Monmouthshire towards the language can be harnessed in terms of providing a lasting legacy in the county to benefit current and future residents and visitors to this special corner of Wales.

Paul Matthews, **Chief Executive**

Councillor Peter Fox, **Leader of the Council**

Councillor Sara Jones, **Equality and Welsh Language Champion**

# Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae'r cyfrifiad wedi cofnodi cynnydd nifer sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Sir Fynwy, o 2.3% o'r boblogaeth yn 1991 i 9.9% yn 2001. Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, cynllun *Iaith Pawb* Llywodraeth Cynulliad Cymru ac addysgu gorfodol y Gymraeg mewn ysgolion a darpariaeth wych Cymraeg i Oedolion yn rhai o'r rhesymau allweddol am y cynnydd.

Bu cynnydd mawr mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y genedl yn y blynyddoedd diweddar ac yn Sir Fynwy caiff hyn ei ddarparu ar lefel gynradd gan Ysgol Gymraeg y Fenni ac Ysgol y Ffin yn Sandy Lane, Cil-y-coed a bu cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n mynychu'r ddwy ysgol ers eu sefydlu. Sefydlwyd Ysgol y Fenni ym mis Medi 1994 gyda 27 ar y gofrestr ac Ysgol y Ffin ym mis Medi 2001 gyda 16 ar y gofrestr. Yn 2015-16 roedd 170 o ddisgyblion wedi cofrestru yn Ysgol y Fenni ac 141 yn Ysgol y Ffin. Mae Ysgol Gymraeg y Fenni yn disgwyl 227 ym mis Medi 2016. Ar ôl gorffen eu haddysg gynradd, mae disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn mynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw yn awdurdod cyfagos Torfaen neu'r ysgol Gymraeg newydd a agorodd yng Nghasnewydd ym mis Medi 2016 - Ysgol Gymraeg Gwent Is-coed.

Y fframwaith statudol ar gyfer y Gymraeg yn Sir Fynwy sy'n rhoi nerth i'r strategaeth hon yw:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2011

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi nod llesiant o:

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymdeithas sy'n hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg

Mae ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y ffordd y bydd y strategaeth yn symud ymlaen â'r strategaeth:

- Strategaeth Mwy Na Geiriau 2012 – defnyddio'r Gymraeg mewn gofal cymdeithasol
- Cymraeg 2050 - ymrwymiad maniffesto y Blaid Lafur i gael 1 miliwn o siaradwyr gan 2050 a ddenodd gefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad.
- Ar sail yr ymrwymiad manifesto uchod mae’r cyngor wedi adolygu a chryfhau ei Chynllun Strategol Addyg Gymraeg (CSAG) ac hefyd mae’r strategaeth wedi cael i newid i ddangos yr ymrwymiad positif yma.

# Introduction and Context

The census has recorded a significant increase in the number of Welsh speakers residing in Monmouthshire, from 2.3% of the population in 1991 to 9.9% in 2011. The Welsh Language Act 1993, the Welsh Assembly Government's *Iaith Pawb* initiative, the compulsory teaching of Welsh in schools, and the fantastic Welsh For Adults provision are some of the key reasons behind this increase.

In recent years there has been a resurgence in Welsh medium education across the whole of the nation and in Monmouthshire this is provided at primary level by Ysgol Gymraeg y Fenni in Abergavenny and Ysgol y Ffin in Sandy Lane Caldicot and numbers attending both schools have increased significantly since their establishment. Ysgol y Fenni was established in September 1994 with a pupil roll of 27 and Ysgol y Ffin in September 2001 with a pupil roll of 16. In 2015 -16 there were 170 pupils registered in Ysgol y Fenni and 141 in Ysgol Y Ffin. In September 2016 Ysgol Gymraeg Y Fenni are expecting 227. Upon the completion of their primary education, pupils in Welsh-medium education attend Ysgol Gyfun Gwynllyw in the neighbouring authority of Torfaen or the new Welsh School which opened in Newport in September 2017 – Ysgol Gymraeg Gwent Is-Coed.

The statutory framework for the Welsh language in Monmouthshire which gives strength to this strategy is as follows:

- The Welsh Language (Wales) Measure 2011
- The Well Being of Future Generations Act 2011:

The latter sets a clear well-being goal of

- A Wales of a vibrant culture and a thriving Welsh Language.
- A society that promotes and protects culture, heritage and the Welsh Language

There are other factors which influence the way in which the strategy will be taken forward:

- The More than Words Strategy/Strategaeth Mwy Na Geiriau 2012 – the use of the Welsh Language in Social Care.
- Cymraeg 2050 – The Labour manifesto commitment to have 1 million Welsh speakers by 2050 that has attracted cross party support in the Senedd.
- As a result of the above manifesto pledge the council have reviewed and considerably strengthened their Welsh Education Strategic Plan (WESP) and this strategy has been amended to reflect that positive commitment.

# Y Safonau'r Iaith Gymraeg:

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg newydd ym mis Mawrth 2016. Mae 176 safon yn gymwys i Gyngor Sir Fynwy. Mae dau yn neilltuol yn gosod y gofynion i gynhyrchu a monitro Strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Y rhain yw:

**Safon 145**

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal, a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid ichi adolygu’r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

**Safon 146**

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -

(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn.

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal ac oedran y siaradwyr hynny;

(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Er yn heriol a blaengar, mae'r targedau yn y strategaeth hon yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei gredu y gellir yn realistig ei gyflawni o fewn ei chwmpas 5 mlynedd; maent yn gymesur i broffil ieithyddol ac yn sir ac yn gydnaws â gofynion blaenoriaethau corfforaethol eraill y Cyngor fel y nodir uchod.

# The Welsh Language Standards.

March 2016 saw the introduction of the new Welsh language standards. There are 176 standards applying to Monmouthshire County Council. Two in particular set out the requirement to produce and monitor a Welsh Language Strategy. These are:

**Standard 145**

You must produce, and publish on your website, a 5-year strategy that sets out how you propose to promote the Welsh language and to facilitate the use of the Welsh language more widely in your area; and the strategy must include (amongst other matters) –

(a) A target (in terms of the percentage of speakers in your area) for increasing or maintaining the number of Welsh speakers in your area by the end of the 5 year period concerned, and

(b) A statement setting out how you intend to reach that target; and you must review the strategy and publish a revised version on your website within 5 years of publishing a strategy (or of publishing a revised strategy).

**Standard 146**

Five years after publishing a strategy in accordance with standard 145 you must –

(a) Assess to what extent you have followed that strategy and have reached the target set by it, and

(b) Publish that assessment on your website, ensuring that it contains the following information –

(i) The number of Welsh speakers in your area, and the age of those speakers;

(ii) a list of the activities that you have arranged or funded during the previous 5 years in order to promote the use of the Welsh language.

While challenging and progressive, the targets contained in this strategy reflect what the Council believes to be realistically achievable within its 5 year lifespan; they are proportionate to the linguistic profile of the county, and consistent with the requirements of the councils other corporate priorities as listed above.

# Gweledigaeth Sir Fynwy - Sut olwg fydd ar Yr Iaith yn y Sir erbyn 2022

Fel rhan o'r weledigaeth hon mae'n hanfodol ein bod yn hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg gan annog pobl i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau.

Y weledigaeth ar gyfer ein sir yw adeiladu cymunedau cynaliadwy a chryf.

Byddwn yn adeiladu ar waddol cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn y sir fel y bydd Sir Fynwy yn 2022 yn fan lle mae:

- Yr iaith Gymraeg yn fyw ac egnïol
- Pobl yn gallu rhyngweithio gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith.

Ar  y tudalennau dilynol dangoswn rai o'r camau gweithredu fydd yn rhoi'r weledigaeth hon ar waith:

# The MonmouthshireVision – What will the language look like in the County by 2022

The vision for our county is of building sustainable and resilient communities. As part of this vision it is essential that we promotes and protect culture, heritage and the Welsh language encouraging people to participate fully in their communities. We will build on the legacy of hosting the national Eisteddfod so that by 2022 Monmouthshire is a county where:

- The Welsh Language is live and dynamic.
- People can interact with the Council through the medium of Welsh.
- More opportunities to engage in activities through the medium of Welsh
- More children are educated through the medium of Welsh.
- There are wider opportunities to learn the language.

In the following pages we show some of the actions that we will deliver to turn this vision into a reality.

# Sut y gallwn wneud hyn

1. Bydd penodi staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi allweddol ar y rheng flaen yn rhoi sylw i'r Cyngor fel cyflogwr Cymraeg o ddewis ac yn rhoi cyfle i bobl a addysgwyd yn lleol ac sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn hefyd ddenu siaradwyr Cymraeg o Gaerdydd ac ymhellach.
2. Rhoi mwy o gyfleoedd i blant i ddysgu'r iaith yn y Sir.
3. Rhoi cyfle i staff fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac wedyn symud ymlaen i ddosbarthiadau Cymraeg i ddysgu'r iaith.
4. Annog staff i ddysgu Cymraeg ar-lein gyda Say Something in Welsh neu Duo Lingo.
5. Gweithio'n agos gyda phartneriaid, y Fenter Iaith, yr Urdd, Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Coleg Gwent, Y Bwrdd Iechyd Lleol a chynghorau cyfagos i normaleiddio a rhoi cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith yn y gwaith a hefyd yn gymdeithasol.
6. Rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd i gael mynediad i wasanaethau a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
7. Harneisio egni ac ewyllys da pwyllgorau codi arian lleol yr Eisteddfod i gynyddu'r defnydd o'r iaith.

# How can we do this

1. The appointment of Welsh speaking staff to key front posts will highlight the council as a Welsh Language employer of choice and give Welsh speaking, locally educated people the opportunity to work through the medium of Welsh. This may also attract Welsh speakers from Cardiff and further afield.
2. Provide greater opportunities for children to learn the language in the county.
3. Provide staff the opportunity to attend Welsh Language awareness sessions and then move on to Welsh classes to learn the language.
4. Actively encourage staff to learn Welsh on-line with either "Say Something in Welsh" or "Duo Lingo"
5. Encourage Welsh speaking and learning staff to communicate with eachother through the medium of Welsh in order to allow them to use the language of their choice and also as a learning/mentoring opportunity
6. Make Welsh speaking staff aware that internal documentation is available through the medium of Welsh as per the Welsh Language Standards.
7. Celebrate and publicise the Welsh Language on occasions such as: Dydd Dewi Sant, Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod Shwmae and Y Pethau Bychan.
8. Work closely with partners, Menter Iaith, Urdd, Welsh Language Commissioner, Welsh Government, Coleg Gwent, The local Health Board and neighbouring Councils to normalise and give opportunities to both learn and use the language, both in work and socially.
9. Give the public greater opportunity to access services and courses through the medium of Welsh.
10. Harness the energy and goodwill of the local Eisteddfod fundraising committees to raise the use of the language.

# Targedau

Rydym wedi gosod nifer o dargedau fydd yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein camau gweithredu ac yn helpu i ddangos ein cynnydd tuag at nodau'r strategaeth bum mlynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynyddu nifer y staff rhugl eu Cymraeg sy'n gweithio i'r Cyngor o 28 i 40 – cynnydd o 53.8%.
- Cynyddu nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg o 14 i 28 erbyn diwedd y strategaeth yma – cynnydd o 100%.
- Cynyddu canran plant a phobl ifanc a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Fynwy o 577 myfyrwyr i 663 myfyrwyr, cynnydd o 15% erbyn 2022.
- Cynyddu cyfradd trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i 3 i 100% erbyn 2022. (2016-17 Ysgol Gymraeg Y Ffin 93.3% neu 14 allan o 15 / Ysgol Gymraeg Y Fenni 78.6% neu 22 allan o 28 / Cyfanswm 83.7% neu 36 allan o 43)
- Cynyddu'r cyfran o bobl ifanc Sir Fynwy sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) y gellir eu defnyddio yn y gweithle o 577 (5.2%) i 1,106 (10%) erbyn 2022

# Targets

We have set a number of targets that will show how well we are delivering our actions and help show the progress we are making towards the aspirations of the five year strategy.  These include:

- Increasing the number of fluent Welsh speaking staff in the Council from 28 to 40 - an increase of  53.8%
- Increasing the numbers of staff learning Welsh from 14 to 28 by the end of this strategy – an increase of 100%.
- Ensure that our WESP is a strategic priority for Monmouthshire
- Introduce more effective ways to promote the advantages of Welsh-medium education to pupils and parents to stimulate greater demand in our primary schools through the provision of better information and easier access to schools and services using the medium of Welsh
- Implement  robust and reliable systems to measure and plan future provision and a suitably skilled workforce to meet the increasing demand for Welsh-medium education
- Ensure that our 21st Century Schools Band B programme aligns with our WESP to facilitate the anticipated growth in demand by 2020 and supports the future demand identified during the life of this plan.
- Increasing the percentage of children and young people educated through the medium of Welsh in Monmouthshire from 577 students to 663 students, an increase of 15% by 2022.
- Increasing the rate of transition from Key Stage 2 to 3 to 95% by 2022. (2016 - 2017 Ysgol Gymraeg Y Ffin 93.3% or 14 out of 15 / Ysgol Gymraeg Y Fenni 78.6% or 22 out of 28 / Total 83.7% or 36 out of 43) .
- Increasing the percentage of young people in Monmouthshire leaving school with bilingual skills (Welsh and English) that can be used in the workplace from 577 (5.2%) to 1,106 (10%) by 2022.

- Mae Sir Fynwy yn bwriadu cynyddu capasiti lleoedd cyfrwng Cymraeg i gydnabod y cynnydd yn y galw am leoedd yn gyffredinol. Bydd ein cynlluniau ar gyfer rhaglen buddsoddi Ysgolion y 21ain ganrif (2019-2023) yn cefnogi hyn drwy ddatblygu darpariaeth arloesol ar gyfer cyfnod allweddol 3 a 4 drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi disgyblion Cymraeg Sir Fynwy i barhau â'u haddysg uwchradd o fewn y sir. I gefnogi'r datblygiad hwn, cynigiwn y dylid symud ysgol gynradd Gymraeg y Fenni a'r Cylch Meithrin i safle Deri View er mwyn cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg o 231 i 420 i fwydo'n uniongyrchol i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er mwyn hwyluso'r newid hwn, rydym yn cynnig sefydlu cyfnod allweddol 3 i chwilio am ddarpariaeth o'r maes Cymraeg ar safle Deri View. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer y twf yn y galw a ragwelir yng ngogledd orllewin y Sir, ar gyfer ein disgyblion yn y dyfodol, a sicrhau dilyniant wrth bontio. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Sir Fynwy yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd er mwyn llywio'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg nesaf.
- Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod yr angen i ddiwallu'r galw sy'n dod i'r amlwg am ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Trefynwy ac i sicrhau darpariaeth ddigonol i ddiwallu'r galw cynyddol yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, cynigiwn y dylid datblygu egin ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ardal Trefynwy o fewn y tair blynedd nesaf, ac ar yr un pryd, datblygu darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ne'r Sir ar safle Ysgol y Ffin.

- Monmouthshire plan to increase the capacity of Welsh-medium places in recognition of the rise in demand for places overall. Our plans for Band B 21st Century Schools investment (2019 - 2023) programme will support this through the development of an innovative provision for key stage 3 and 4 delivered through the medium of Welsh. This investment will enable Welsh speaking Monmouthshire pupils to continue their secondary education within the county. To support this development, we propose to relocate Ysgol y Fenni Welsh medium primary school and the Cylch Meithrin onto the Deri View site to increase the number of Welsh medium primary places from 231 to 420 to feed directly into the Welsh medium provision. To facilitate this transition, we propose to establish a key stage 3 Welsh medium seedling provision on the Deri View site. This will accommodate our anticipated growth in demand in the North West of the county for our pupils in the future and ensure continuity at the point of transition. During this period, Monmouthshire will continue to review the provision for Welsh medium education in the primary sector to inform the next WESP.
- The local authority also recognises the need to meet an emerging demand for Welsh medium primary provision in the Monmouth area and to secure sufficient provision to accommodate increasing demand in future years. In order to achieve this, we propose to develop a seedling Welsh medium primary school with provision for early years and childcare in the Monmouth area within the next three years and at the same time, develop early years and childcare provision in the south of the county on the site of Ysgol y Ffin.

# Atodiadau

## Atodiad 1-Cyngor Sir Fynwy - canran o'r boblogaeth 3 oed a throsodd a all siarad Cymraeg yn ôl ardal gymunedol Cyfrifiad 2011.

| Enw Adran Etholiadol | Preselwyr 3+ Rhifau | Siarad Rhifau | Siarad % | Siarad,darllen + ysgrifennu, Rhifau | Siarad,darllen + ysgrifennu, % |
|---|---|---|---|---|---|
| Caer-went | 1735 | 151 | 8.7 | 114 | 6.6 |
| Castell Cil-y-coed | 1885 | 221 | 11.7 | 166 | 8.8 |
| Cantref | 1994 | 169 | 8.5 | 127 | 6.4 |
| Castell | 1749 | 173 | 9.9 | 127 | 7.3 |
| Croesonnen | 2330 | 232 | 10 | 160 | 6.9 |
| Crucornau Fawr | 2054 | 216 | 10.5 | 158 | 7.7 |
| Devauden | 1448 | 139 | 9.6 | 94 | 6.5 |
| Llanddewi | 1888 | 172 | 9.1 | 120 | 6.4 |
| Dixton gydag Osbaston | 2501 | 180 | 7.2 | 129 | 5.2 |
| Drybridge | 3291 | 346 | 10.5 | 238 | 7.2 |
| Goetre Fawr | 2332 | 270 | 11.6 | 197 | 8.4 |
| Green Lane | 2014 | 220 | 10.9 | 147 | 7.3 |
| Grofield | 1785 | 185 | 10.4 | 128 | 7.2 |
| Lansdown | 2125 | 202 | 9.5 | 129 | 6.1 |
| Larkfield | 1952 | 151 | 7.7 | 108 | 5.5 |
| Llanbadog | 1281 | 135 | 10.5 | 96 | 7.5 |
| Bryn Llanelli | 3818 | 337 | 8.8 | 253 | 6.6 |
| Llan-ffwyst Fawr | 1811 | 211 | 11.7 | 158 | 8.7 |
| Llangybi Fawr | 1820 | 163 | 9 | 132 | 7.3 |
| Llanofer | 2244 | 173 | 7.7 | 128 | 5.7 |
| Llandeilo Gresynni | 1718 | 164 | 9.5 | 118 | 6.9 |
| Llanwenarth Tu Draw | 1406 | 117 | 8.3 | 92 | 6.5 |
| Y Maerdy | 1432 | 150 | 10.5 | 109 | 7.6 |
| Y Felin | 2424 | 263 | 10.8 | 209 | 8.6 |
| Llanfihangel Troddi | 1221 | 108 | 8.8 | 86 | 7 |
| Overmonnow | 2314 | 196 | 8.5 | 146 | 6.3 |
| Porth y Sgewin | 2083 | 220 | 10.6 | 167 | 8 |
| Y Priordy | 2117 | 219 | 10.3 | 166 | 7.8 |
| Rhaglan | 1876 | 209 | 11.1 | 144 | 7.7 |
| Rogiet | 1747 | 272 | 15.6 | 203 | 11.6 |
| St. Arvans | 1569 | 134 | 8.5 | 95 | 6.1 |
| St. Christopher's | 2490 | 299 | 12 | 214 | 8.6 |
| St. Kingsmark | 3032 | 247 | 8.1 | 186 | 6.1 |
| St. Mary's | 1776 | 120 | 6.8 | 82 | 4.6 |
| Hafren | 1630 | 172 | 10.6 | 123 | 7.5 |
| Drenewydd Gelli-farch | 2158 | 172 | 8 | 112 | 5.2 |
| The Elms | 3536 | 452 | 12.8 | 335 | 9.5 |
| Thornwell | 2630 | 282 | 10.7 | 189 | 7.2 |
| Tryleg Unedig | 2694 | 261 | 9.7 | 187 | 6.9 |
| Brynbuga | 2766 | 271 | 9.8 | 195 | 7 |
| West End | 1861 | 199 | 10.7 | 155 | 8.3 |
| Wyesham | 2072 | 207 | 10 | 151 | 7.3 |
| **Total** | **88609** | **8780** | **9.90%** | **6373** | **7.20%** |

# Appendices

## Appendix 1-Monmouthshire County Council – percentage of the population 3 and over able to speak Welsh by community area Census 2011

| Electoral Division Name | Residents 3+ Numbers | Speak Numbers | Speak % | Speak, Read + Write Numbers | Speak, Read + Write % |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerwent | 1735 | 151 | 8.7 | 114 | 6.6 |
| Caldicot Castle | 1885 | 221 | 11.7 | 166 | 8.8 |
| Cantref | 1994 | 169 | 8.5 | 127 | 6.4 |
| Castle | 1749 | 173 | 9.9 | 127 | 7.3 |
| Croesonen | 2330 | 232 | 10 | 160 | 6.9 |
| Crucorney | 2054 | 216 | 10.5 | 158 | 7.7 |
| Devauden | 1448 | 139 | 9.6 | 94 | 6.5 |
| Dewstow | 1888 | 172 | 9.1 | 120 | 6.4 |
| Dixton with Osbaston | 2501 | 180 | 7.2 | 129 | 5.2 |
| Drybridge | 3291 | 346 | 10.5 | 238 | 7.2 |
| Goetre Fawr | 2332 | 270 | 11.6 | 197 | 8.4 |
| Green Lane | 2014 | 220 | 10.9 | 147 | 7.3 |
| Grofield | 1785 | 185 | 10.4 | 128 | 7.2 |
| Lansdown | 2125 | 202 | 9.5 | 129 | 6.1 |
| Larkfield | 1952 | 151 | 7.7 | 108 | 5.5 |
| Llanbadoc | 1281 | 135 | 10.5 | 96 | 7.5 |
| Llanelly Hill | 3818 | 337 | 8.8 | 253 | 6.6 |
| Llanfoist Fawr | 1811 | 211 | 11.7 | 158 | 8.7 |
| Llangybi Fawr | 1820 | 163 | 9 | 132 | 7.3 |
| Llanover | 2244 | 173 | 7.7 | 128 | 5.7 |
| Llantilio Crossenny | 1718 | 164 | 9.5 | 118 | 6.9 |
| Llanwenarth Ultra | 1406 | 117 | 8.3 | 92 | 6.5 |
| Mardy | 1432 | 150 | 10.5 | 109 | 7.6 |
| Mill | 2424 | 263 | 10.8 | 209 | 8.6 |
| Mitchel Troy | 1221 | 108 | 8.8 | 86 | 7 |
| Overmonnow | 2314 | 196 | 8.5 | 146 | 6.3 |
| Portskewett | 2083 | 220 | 10.6 | 167 | 8 |
| Priory | 2117 | 219 | 10.3 | 166 | 7.8 |
| Raglan | 1876 | 209 | 11.1 | 144 | 7.7 |
| Rogiet | 1747 | 272 | 15.6 | 203 | 11.6 |
| St. Arvans | 1569 | 134 | 8.5 | 95 | 6.1 |
| St. Christopher's | 2490 | 299 | 12 | 214 | 8.6 |
| St. Kingsmark | 3032 | 247 | 8.1 | 186 | 6.1 |
| St. Mary's | 1776 | 120 | 6.8 | 82 | 4.6 |
| Severn | 1630 | 172 | 10.6 | 123 | 7.5 |
| Shirenewton | 2158 | 172 | 8 | 112 | 5.2 |
| The Elms | 3536 | 452 | 12.8 | 335 | 9.5 |
| Thornwell | 2630 | 282 | 10.7 | 189 | 7.2 |
| Trellech United | 2694 | 261 | 9.7 | 187 | 6.9 |
| Usk | 2766 | 271 | 9.8 | 195 | 7 |
| West End | 1861 | 199 | 10.7 | 155 | 8.3 |
| Wyesham | 2072 | 207 | 10 | 151 | 7.3 |
| **Total** | **88609** | **8780** | **9.90%** | **6373** | **7.20%** |

## Atodiad 2 Cynllun Gweithredu 2017 - 2022

| | Beth | Sut | Pryd | Gweledigaeth | Pwy |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 1 | Penodi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi allweddol | Cynllunio gweithlu adrannol Asesu pob swydd wag yn unigol | Parhaus | Gall pobl gysylltu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg | Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell |
| 2 | Rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddysgu'r iaith yn y Sir | Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ar oedran ifanc | | Mwy o blant yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG), Menter Iaith, Yr Urdd, Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, Twf, Mudiad Meithrin |
| 3 | Rhoi cyfle i staff fynychu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac wedyn symud ymlaen i ddosbarthiadau Cymraeg i ddysgu'r iaith | Trefnu rhaglen o ddosbarthiadau ar gyfer dysgwyr | | Mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith | Swyddog y Gymraeg, Addysg Oedolion, Coleg Gwent |
| 4 | Annog staff i ddysgu Cymraeg trwy Cwrs Mynediad ayyb neu ar-lein gyda Say Something in Welsh neu Duo Lingo | Hysbysebu cyrsiau ar y fewnrwyd a thrwy e-bost | Parhaus | Mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith | Swyddog y Gymraeg, Cyfathrebu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Gweithio'n agos gyda phartneriaid, i normaleiddio a rhoi cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith yn y gwaith a hefyd y gymdeithasol | Weithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr i wneud yn siŵr fod y cyfle i Gyngor Sir Fynwy bod yn rhan o bob cynllun partneriaeth a drefnir | Parhaus | Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg | Swyddog Iaith Gymraeg, Menter Iaith, yr Urdd, Gwasanaethau Hamdden, Gwasanaethau Ieuenctid |
| 6 | Rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd i gael mynediad i wasanaethau a chyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg | Canfod pa gwasanaethau mae'r cyhoedd ei eisiau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Edrych ar benodi siaradwyr Cymraeg neu weithio mewn partneriaeth i ddarparu'r gwasanaeth/gweithgaredd | Parhaus<br><br>Parhaus ac yn gynyddol aml | Pobl yn gallu rhyngweithio gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg | Adrannau'r Cyngor<br><br>Gweithio gyda Menter Iaith, yr Urdd, awdurdodau cyfagos |
| 7 | Harneisio egni ac ewyllys da pwyllgorau codi arian lleol i gynyddu defnydd yr iaith | Gweithio gyda'r pwyllgorau codi arian i drafod 'gwaddol' briodol ar gyfer yr Eisteddfod | 2017 | Y Gymraeg yn "fyw a deinamig" | Swyddog y Gymraeg |

# Appendix 2 – Action plan 2017 - 2022

| | What | How | when | Vision | Who |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 1 | Appoint additional Welsh speaking staff to key posts | Departmental workforce planning<br>Assess each vacancy on its merits | Ongoing | People can interact with the Council through the medium of Welsh | Human Resources and Line managers. |
| 2 | Provide greater opportunities for children to learn the language in the County. | Promote Welsh Medium education at an early age. | | More children are educated through the medium of Welsh. | Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG), Menter Iaith, The Urdd, Children and Young People Directorate (CYP), TWF, Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) |
| 3 | Provide staff the opportunity to attend Welsh Language awareness sessions and then move on to Welsh classes to learn the language. | Arrange a programme of classes for learners. | | There are wider opportunities to learn the language | Welsh Language Officer, Adult Education, Coleg Gwent |
| 4 | Actively encourage staff to learn Welsh through Dosbarth Nos or on-line with both “Say Something in Welsh” (SSIW) or “Duo Lingo” | Advertise courses on intranet and e mail. | Ongoing | There are wider opportunities to learn the language | Welsh Language Officer, Communication |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Work closely with partners, to normalise and give opportunities to both learn and use the language, both in work and socially. | Work in partnership with colleagues to make sure that Monmouthshire County Council have the opportunity to be involved in every partnership initiative that is organised. | Ongoing | More opportunities to engage in activities through the medium of Welsh | Welsh Language Officer, Menter Iath, Urdd, Leisure Services, Youth Services |
| 6 | Give the public greater opportunity to access services and courses through the medium of Welsh | Find out what services the public want through the medium of Welsh.<br><br>Look to appoint Welsh Speakers or work in partnership to provide the service/activity | Ongoing<br><br>Ongoing and with increasing frequency | People can interact with the Council through the medium of Welsh | Council departments<br><br>Work with Menter Iaith, Urdd, neighbouring authorities |
| 7 | Harness the energy and goodwill of the local fundraising committees to raise the use of the language | Work with the Eisteddfod fundraising committees to develop an appropriate "Legacy" for the Eisteddfod. | 2017 | The Welsh Language is "Live and Dynamic" | Welsh Language Officer, |